sir ddinbych denbighshire
Cyngor County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 8 Rhagfyr 2020 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Y Cynghorwyr Tony Thomas a Bobby Feeley / Angela Loftus** |
| **Awdur yr Adroddiad** | Sue Lewis |
| **Teitl** | Strategaeth Dai a Digartrefedd Sir Ddinbych |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r Strategaeth Dai wedi cael ei hadolygu a'i diwygio i ffurfio Strategaeth Dai a Digartrefedd newydd ar gyfer y Sir. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli'r Strategaeth ddiwygiedig a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Mae sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol a bydd mabwysiadu fersiwn ddiwygiedig a chyfoes o'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn darparu fframwaith i bob swyddogaeth berthnasol o'r Cyngor, er mwyn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth yn llwyddiannus. Mae'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn darparu datganiad clir o weledigaeth ac amcanion y Cyngor ar gyfer tai yn y Sir am y 5 mlynedd nesaf.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu Strategaeth Dai a Digartrefedd ddiwygiedig Cyngor Sir Ddinbych, a rhoi sêl bendith i'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â hi.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Dai a Digartrefedd gyda'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig fel y fframwaith ar gyfer symud ymlaen â materion tai.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol, a bydd datblygu Strategaeth Dai a Digartrefedd ddiwygiedig yn hanfodol i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth. Mae **Atodiad A** yn cynnwys y crynodeb o'r Strategaeth Dai a Digartrefedd ddrafft. Mae'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn darparu datganiad clir o weledigaeth ac amcanion y Cyngor ar gyfer tai yn y Sir. Mae'n nodi'r heriau a'r materion allweddol sy'n effeithio'r Sir a beth mae timau amrywiol y Cyngor yn bwriadu ei wneud i helpu i oresgyn yr heriau hyn, gan adlewyrchu dull corfforaethol amlddisgyblaethol gyda materion a darpariaeth tai yn y Sir. Mae'r prif destun o'r Strategaeth Dai a Digartrefedd ar gael ar y ddolen gyswllt ganlynol: https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ecSDDisplay.aspx?NAME=SD1289&ID=1289&RPID=12281314&LLL=0

4.2 Cymeradwywyd Strategaeth Dai gyfredol Sir Ddinbych gan y Cyngor 1 Rhagfyr 2015 ac roedd yn nodi gweledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir dros gyfnod o bum mlynedd. Yn bwysig ddigon, mae'n cynorthwyo i gyflawni blaenoriaeth o'r Cynllun Corfforaethol drwy ddarparu fframwaith a chynllun gweithredu i ddarparu (gan weithio gyda phartneriaid) pob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â thai y Cyngor (preifat a chyhoeddus). Mae'r Strategaeth hefyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Strategaeth gyfredol yn nodi 5 "Thema" er mwyn targedu meysydd blaenoriaeth i'w gweithredu:

- Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol;
- Creu cyflenwad o dai fforddiadwy;
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach:
- Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn;
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau.

4.3. Sefydlwyd "grŵp llywio" ar gyfer y Strategaeth Dai gyfredol, sydd yn cynnwys Aelodau Arweiniol, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr a Swyddogion, gyda chynllun gweithredu clir a dulliau monitro. Mae Cynllun Gweithredu manwl yn cyd-fynd â'r Strategaeth Dai sydd yn blaenoriaethu camau gweithredu a fyddai'n cael yr effaith fwyaf wrth fod yn realistig hefyd ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflwyno gydag adnoddau cyfyngedig. Ers ei mabwysiadu yn 2015, mae'r Strategaeth Dai

wedi gwneud cynnydd sylweddol ac mae mwyafrif y camau gweithredu wedi cael eu cwblhau a’u rhoi ar waith mewn arferion gweithredol.

4.4 Fe sefydlwyd y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd i ddatblygu ymagwedd fwy cydlynol. Cytunodd y grŵp hwn i gyfuno’r Strategaeth Dai a’r Strategaeth Ddigartrefedd yn un Strategaeth Dai a Digartrefedd ddiwygiedig ac wedi’i diweddaru. Mae’r Grŵp wedi llywio datblygiad y Strategaeth ddiwygiedig a gyda rôl allweddol wrth oruchwylio ei darpariaeth. Caiff y Grŵp ei gadeirio ar y cyd gan y Cynghorydd Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) a’r Cynghorydd Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth). Mae Aelodau o'r Grŵp yn cynnwys yr Aelodau Arweiniol hynny â chyfrifoldeb am ardal o dai o fewn eu portffolios, y Cefnogwr Atal Digartrefedd (y Cynghorydd Brian Blakely), Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a’r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai. Mae’r dull hwn wedi’i gydlynu, gellir datrys problemau ar y cyd, gellir cyfathrebu’n effeithiol a cheir rhagor o gyfleoedd i weithio’n agosach ar draws adrannau.

4.5. Blaenoriaeth frys yw datblygu dull corfforaethol i fynd i’r afael â digartrefedd, gan fod pandemig Covid-19 wedi achosi llawer mwy o bwysau ar y gwasanaeth. Dim digon o lety brys a thros dro addas, a gorddibyniaeth ar lety Gwely a Brecwast/Gwesty ac aros am gyfnodau hirach mewn llety brys. Mae’r dull hwn yn ail-ganolbwyntio ar ddarparu mwy o atebion llety i gynorthwyo pobl ddigartref. Bydd y Strategaeth yn ddull iddynt gytuno ar flaenoriaethau digartrefedd a monitro cynnydd yn eu herbyn. Bydd hyn yn galluogi integreiddio gwell a pherchenogaeth gorfforaethol o waith ar ddigartrefedd.

4.6. Y cynnig yw cadw’r 5 prif thema, gan ychwanegu ‘Atal a mynd i’r afael â digartrefedd’ fel thema newydd ar wahân, i sicrhau ei bod yn cael ei thargedu fel blaenoriaeth. Daw’r Strategaeth gyda Chynllun Gweithredu newydd (**Atodiad B**). Rhagwelir y bydd hon yn ddogfen fyw, yn amodol ar fonitro ac adolygiad rheolaidd gan Aelodau Arweiniol a Chraffu. Mae’r Cynllun Gweithredu’n nodi’r camau gweithredu y bydd y timau perthnasol yn y Cyngor yn canolbwyntio arnynt mewn mwy o fanylder, a sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid dros y 5 mlynedd nesaf i helpu i wireddu gweledigaeth y Cyngor.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

4.7 Unwaith y caiff ei mabwysiadu, fe gyhoeddir y Strategaeth Dai a Digartrefedd ar wefan y Cyngor ac fe hysbysir bob partner. Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu fod yn ddogfen fyw, wedi'i diweddaru a'i hadolygu'n rheolaidd. Bydd gan Bwyllgorau Craffu'r Cyngor rôl allweddol mewn monitro'r Strategaeth, ac yn fwy pwysig, i fwrw ati mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu, fel y bydd Aelodau Arweiniol hefyd. Wrth gwrs, gall materion lleol gael sylw gan Grwpiau Ardal yr Aelodau hefyd.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae chwe thema'r Strategaeth Dai a Digartrefedd a fanylir yn **Atodiad A** yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol – tai, yr amgylchedd, pobl ifanc a chymunedau cadarn.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd costau'r prosiectau'n cael eu monitro'n agos. Bydd yr holl gostau'n cael eu cadw o fewn y gyllideb – rhai ni a'n partneriaid.

# 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Strategaeth yn sgorio'n dda gan ei bod yn ceisio mynd i'r afael â'r angen dybryd am dai i bobl sy'n ddigartref, a hefyd i fynd i'r afael â'r angen tymor hwy am dai fforddiadwy, o ansawdd uchel yn ein cymunedau. Bydd mentrau i wella effeithiolrwydd ynni'r stoc dai bresennol ac adeiladu stoc newydd i safonau uchel yn helpu i leihau tlodi tanwydd. Bydd gwelliannau effeithiolrwydd ynni'n helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ac yn cynorthwyo i ddatgarboneiddio a gwneud gwelliannau i fioamrywiaeth.

7.2 Bydd y Strategaeth yn annog gwaith partneriaeth, gellid ehangu ar hyn gyda rhagor o ymgysylltiad â darparwyr tai. Bydd cysylltiadau â mentrau a strategaethau eraill yn helpu i fynd i'r afael ag achosion digartrefedd. Amgaeir copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Les yn **Atodiad C**.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd ac ymgysylltwyd i ddatblygu'r Strategaeth Dai a Digartrefedd ddiwygiedig drwy:

- Adroddiad i'r Bwrdd Rhaglen Pobl Ifanc a Thai (21 Tachwedd 2019);
- Cyfarfodydd y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd (bob chwarter);
- Gweithdy Cynghorwyr wedi'i gynnal (15 Ionawr 2020);
- Craffu ar Berfformiad dros e-bost oherwydd bod cyfarfod wedi'i ganslo (6 Ebrill 2020);
- Uwch Dîm Arweinyddiaeth (18 Mehefin 2020 a 21 Hydref 2020);
- Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth i ystyried y crynodeb a'r Cynllun Gweithredu (1 Medi 2020) a bod cyfarfodydd chwarterol pellach yn cael eu trefnu;
- Cyfarfod Cynghorwyr Allweddol (27 Hydref 2020);
- Cyfarfod briffio'r Cabinet (2 Tachwedd 2020);
- Cabinet (24 Tachwedd 2020).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Bydd angen asesu goblygiadau cost llawn cynigion penodol sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r Strategaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae sicrhau fod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae amrywiaeth o ddulliau yn eu lle i fonitro cynnydd.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Tai 1985 (A8), Deddf Tai 2004 (A8), Deddf Llywodraeth Leol 2003 (A87), Deddf Tai (Cymru) 2014.